# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR PENSIYNAU**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD IAU, 9FED MEHEFIN, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gwyrfai, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 1 Mehefin 2016)

# PWYLLGOR PENSIYNAU

## AELODAETH (7)

## Plaid Cymru (3)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Peredur Jenkins | W. Tudor Owen | Simon Glyn |

## Annibynnol (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Trevor Edwards | John Pughe Roberts |

## Llafur (1)

Y Cynghorydd Glyn Thomas

## Democratiaid Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen W Churchman

## Aelodau Cyfetholedig

| | |
|---|---|
| Hywel Eifion Jones | Cyngor Môn |
| Margaret Lyon | Cyngor Bwrdeistref Conwy |

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2016/17

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2016/17

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 6. COFNODION — 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17.03.16 fel rhai cywir

## 7. ADRODDIAD ECWITI PREIFAT — 7

Ystyried  adroddiad y Rheolwr Buddsoddi

## 8. PWLIO BUDDSODDIADAU AR GYFER CRONFEYDD PENSIWN CPLLL MEWN LLOEGR A CHYMRU — 8 - 12

Ystyried adroddiad y Pennaeth Cyllid

**PWYLLGOR PENSIYNAU, 17.03.2016**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr: Trevor Edwards, Seimon Glyn, H. Eifion Jones (Cynrychiolydd Cyngor Sir Ynys Môn), Margaret Lyon (Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), W Tudor Owen (Cadeirydd) a Glyn Thomas

Swyddogion:- Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Buddsoddi), Nicholas Hopkins (Rheolwr Pensiynau) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr, Stephen Churchman, Peredur Jenkins a John P. Roberts.

Croesawyd Osian Richards, aelod o'r Bwrdd Pensiwn i'r cyfarfod, fel sylwebydd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dyddiadau er gwybodaeth;

| | |
|---|---|
| 27 – 28 Mehefin 2016 | Hyfforddiant Aelodau yn Llundain |
| 23 – 24 o Fehefin 2016 | Cynhadledd 'In at the Deep End'. Penderfynwyd bod y Cynghorwyr Trevor Edwards a Glyn Thomas yn mynychu gyda chynnig hefyd i ddau aelod o'r Bwrdd Pensiwn. |

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11eg o Chwefror 2016 fel rhai cywir.

**5. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL AR GYFER 2016/2017**

Eglurwyd, yn unol â Chyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel rhan o'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys, baratoi Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol. Fel ymarfer da, ystyrir y dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd (y "Gronfa") fabwysiadu Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn.

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn gofyn i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi am 2016/2017. Eglurwyd bod Datganiad Cyngor Gwynedd eisoes wedi ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio (Chwefror 11.2.16) ac wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar y 3ydd o Fawrth 2016.

Yn ychwanegol, gofynnwyd i'r Pwyllgor Pensiynau wneud cais i'r Cyngor, i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol yr Awdurdod o'r 1af o Ebrill ymlaen. Eglurwyd bod cronni y llif arian yn denu llog uwch, isafu costau bancio, ac yn osgoi dyblygu gwaith o fewn y Cyngor.

O ystyried cynnydd yn y risgiau a'r parhad yn yr enillion isel o fuddsoddiadau byrdymor ansicredig, nodwyd bwriad yr Awdurdod yn ystod 2016/17, i arallgyfeirio i ddosbarthiadau o asedau sydd yn fwy sicr a/neu sydd yn cynnig enillion uwch. Ar hyn o bryd mae'r rhan helaeth o'r arian parod sydd dros ben gan yr Awdurdod wedi'i fuddsoddi mewn adneuon banc anwarantedig, tystysgrifau adneuon a chronfeydd marchnadoedd arian. Ategwyd bod Arlingclose, ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod yn cynnig dulliau buddsoddi creadigol ac felly bydd yr arallgyfeirio'n cynrychioli newid sylweddol yn y strategaeth dros y flwyddyn i ddod.

Cynigiwyd ac eiliwyd i dderbyn yr argymhellion.

**PENDERFYNWYD**

- **Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi Blynyddol atodol am 2016/17, fel ei addaswyd i bwrpas y Gronfa Bensiwn**
- **Gwneud cais i'r Cyngor (er nad yw'n gorff ar wahân) i ganiatáu i arian dros ben y Gronfa Bensiwn barhau i gael ei gronni gyda llif arian cyffredinol y Cyngor o 1 Ebrill 2016 ymlaen.**

## 6. DATGANIAD O EGWYDDORION BUDDSODDI

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi yn gofyn i'r Pwyllgor fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi. Nodwyd bod y ddogfen ddiwygiedig yn cynnwys y newidiadau a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2015. Adroddwyd, yn dilyn cyfnod ymgynghori o wyth wythnos, bod angen i'r Pwyllgor fabwysiadu'r fersiwn terfynol yn ffurfiol. (Amlygwyd, er mai ychydig iawn o addasiadau sydd i'r Datganiad, bod yn ofynnol eu gweithredu).

Tynnwyd sylw at gyfrifoldeb y Rheolwyr Buddsoddi ac amlinellwyd mai'r datganiad sydd yn gosod ffiniau a chyfrifoldebau.

Cynigiwyd ac eiliwyd i fabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi yn ffurfiol.**

## 7. DIWEDDARIAD AR YMGYNGHORIADAU LLYWODRAETH WESTMINSTER (DCLG)

Mewn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid atgoffwyd yr Aelodau bod ymatebion wedi eu cyflwyno i ddau ymgynghoriad diweddar gan y DCLG sef:

a) Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: Meini Prawf Diwygiad Buddsoddiadau ac Arweiniad.

b) Diddymu a Disodli'r Rheoliadau Cynllun Bensiwn Llywodraeth Leol (Rheolaeth A Buddsoddi Cronfeydd) 2009

Adroddwyd nad oedd ymateb i'r ymgynghoriadau wedi eu cyhoeddi gan y Llywodraeth a bod y cronfeydd yn parhau i aros penderfyniad. Nodwyd bod dau ymateb posib - ynteu ganiatáu UN gronfa i Gymru neu uno â chronfa dros y ffin.

Amlygwyd bod y sefyllfa yn un bregus ac annhebygol y bydd arweiniad yn cael ei gynnig ar y mater gan Lywodraeth San Steffan. Petai Gwynedd i uno gyda chronfeydd dros y ffin, bydd gofyn i'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid gynnal trafodaethau gyda chronfeydd i geisio'r budd gorau i'r gronfa bensiwn yng Ngwynedd. Gwnaed cais i ymateb Llywodraeth San Steffan gael ei rannu pan fydd cyhoeddiad. Petai'r angen yn codi i rannu gwybodaeth ymhellach, yna gwnaed penderfyniad i alw cyfarfod arbennig.

Derbyniwyd y sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 2pm a daeth i ben 2:30pm

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD: | **9 MEHEFIN 2016** |
| TEITL: | **BUDDSODDIADAU ECWITI PREIFAT** |
| PWRPAS: | **Gofyn i'r pwyllgor pensiynau penderfynu ar y fuddsoddiad** |
| ARGYMHELLIAD: | **DERBYN YR ARGYMHELLIAD** |
| AWDUR: | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Cynhaliwyd cyfarfod chwarterol y Panel Buddsoddi'r Gronfa Bensiwn ar 19 Mai 2016 yng Nghaernarfon.

## 2. BUDDSODDIAD ECWITI PREIFAT

**2.1** Derbyniwyd cyflwyniad a thrafodwyd gyda Hymans Robertson ar opsiynau ar gyfer ymrwymiad bellach i ecwiti preifat er mwyn cyrraedd y meincnod strategol sef 5% mewn Ecwiti Preifat. Barn y Panel oedd y dylid buddsoddi €30 miliwn (£25 miliwn) mewn cronfa uniongyrchol ecwiti gyda Partners Group. Gan bod hyn yn buddsoddiad uniongyrchol nid oes angen mynd trwy broses caffael.

## 3. ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Pwyllgor cadarnhau buddsoddiad uniongyrchol gyda

Partners Group Direct Equity 2016 Fund

yn unol â barn y Panel Buddsoddi.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **9 MEHEFIN 2016** |
| **TEITL** | **PŴLIO BUDDSODDIADAU AR GYFER CRONFEYDD PENSIWN CPLlL MEWN LLOEGR A CHYMRU** |
| **AWDUR** | **DAFYDD EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Mawrth 2016, hysbyswyd yr aelodau nad oedd ymateb wedi ei dderbyn i gyflwyniad y cronfeydd CPLlL yng Nghymru i'r ymgynghoriad pŵlio buddsoddiadau.

1.2 Yn dilyn hynny, anfonwyd ymateb at Gadeirydd pob un o'r wyth cronfa yng Nghymru gan Marcus Jones AS, yn croesawu'r cynnig cychwynnol Cymreig ac yn annog i'r cronfeydd barhau gyda'r gwaith i ddatblygu cyflwyniad manwl sydd yn cwrdd a'r meini prawf erbyn 15 Gorffennaf 2016.

1.3 Cylchredwyd y llythyr hwn i bob aelod o'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn gan y Pennaeth Cyllid ar ddiwedd mis Mawrth.

**2. CEFNDIR**

2.1 Nid yw cydweithio ar draws yr wyth cronfa bensiwn CPLlL yng Nghymru yn beth newydd. Yn ddiweddar, mae cefnogaeth wedi'i fynegi gan aelodau etholedig ar draws yr wyth cronfa i ymchwilio i'r cyfleoedd i gyflawni arbedion effeithlonrwydd o fewn meysydd ariannu a buddsoddi drwy ystyried materion megis cyfuno cynlluniau a chydweithio ar fuddsoddiadau.

2.2 Ym mis Mawrth 2013, fe wnaeth Is-grŵp Pensiynau Cymdeithas Trysoryddion Cymru: Gweithio Gyda'n Gilydd') a oedd yn cynnwys proses ymgynghori ffurfiol.

2.3 Yn dilyn arweiniad yn sgil Ymgynghoriad ehangach y DCLG ar Arbedion Cost ac Effeithlonrwydd, fe gomisiynodd yr Is-grŵp Pensiynau adroddiad pellach yn gynnar yn 2015 ar ddatblygu cynllun busnes manwl er mwyn sefydlu cronfa fuddsoddi gyffredin.

**3. LLYWODRAETH Y DU - AGENDA AR GYFER DIWYGIO STRWYTHUROL**

3.1 Ym mis Gorffennaf 2015, awgrymodd Llywodraeth y DU y dylid cronni holl asedau'r CPLlL yng Nghymru a Lloegr. Dechreuwyd trafodaethau anffurfiol gyda'r cronfeydd

yn yr haf ac fe eglurwyd mai'r cronfeydd eu hunain fyddai'n cael eu gwahodd i wneud eu cynigion eu hunain ynghylch sut ellid gweithredu ar gronni asedau orau. Dechreuwyd trafodaethau ar draws y Cynllun ynghylch cyfansoddiad posib y gwahanol pŵls asedau.

3.2 Ym mis Medi 2015, fe wnaeth Pwyllgor Pensiynau bob un o'r wyth cronfa yng Nghymru benderfynu'n ffurfiol i osod eu cwrs eu hunain ymhell cyn y canllawiau a osodwyd yn dilyn hynny gan DCLG / HMT. Gwnaed penderfyniadau fel a ganlyn:

- penodi un darparwr gwasanaethau rheoli goddefol i'r cronfeydd, a
- bwrw ymlaen i sefydlu Cerbyd Cyd-fuddsoddi (CIV) ffurfiol i hwyluso cronni asedau.

3.3 Penderfynwyd hefyd y byddai'r cronfeydd yn defnyddio darparwr trydydd parti ('gweithredwr') i ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol i sefydlu cerbyd cronni a reoleiddir yn llawn gan yr FCA (yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol) - yn hytrach na chreu eu cerbyd eu hunain.

3.4 Gwnaed y penderfyniad hwn gan ystyried yr adnoddau mewnol cyfyngedig sydd ar gael i sefydlu ei gerbyd cronni ei hun, yr amserlenni byrrach ar gyfer gweithredu tebygol a'r lefel is o risg rheoleiddio y byddai ymagwedd o'r fath yn ei hawgrymu.

3.5 Ym mis Tachwedd, cyhoeddodd DCLG y meini prawf ffurfiol yr asesid y cynigion cronni a wneir gan y CPLlL yn eu herbyn. Roedd pedwar maen prawf allweddol:-

- Graddfa
- Llywodraethu a phroses gwneud penderfyniadau gref
- Effeithlonrwydd cost a gwerth am arian
- Gwell capasiti i fuddsoddi mewn isadeiledd

3.6 Fe wnaeth cronfeydd Cymru adolygu eu cynnydd hyd yn hyn ar gronni buddsoddiadau gan benderfynu bwrw ymlaen i sefydlu Pŵl Cymru o fewn y canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth y DU, drwy'r DCLG.

## 4. CYFLWYNIAD MIS CHWEFROR

4.1 Cyflwynwyd cynnig am Pŵl Cymru i DCLG yn unol â'r amserlen a ddynodwyd ganddynt erbyn 19 Chwefror 2016, ynghyd â llythyrau yn datgan cefnogaeth gan bob un o'r Cadeiryddion Pwyllgorau perthnasol.

4.2 Roedd y cynnig yn talu sylw i bob un o'r meini prawf a nodwyd, ac eithrio graddfa gan fod DCLG wedi nodi y byddent yn rhagweld pŵls gydag isafswm o £25bn o asedau. (Roedd cyfanswm yr asedau ar draws cronfeydd Cymru tua £12-13bn ym mis Mawrth 2015). Roedd y cynnig hefyd yn pwysleisio'r gwaith sylweddol a oedd wedi'i wneud hyd hynny a sefyllfa unigryw cydweithio ledled Cymru.

4.3 Roedd yr ymateb i'r cynnig gan DCLG yn rhoi cefnogaeth gref i'r defnydd arfaethedig o gerbyd rheoleiddio ffurfiol ac yn cydnabod y nodweddion unigryw y byddai gan Pŵl Cymru. Anogwyd y cronfeydd i weithio ymhellach ar fanylion y cynnig i'w gyflwyno ym mis Gorffennaf.

## 5. CYFLWYNIAD MIS GORFFENNAF

5.1 Mae cais wedi'i wneud am gyflwyniadau manylach gan yr holl pŵls arfaethedig erbyn 15 Gorffennaf.

5.2 Bydd gofyn i'r cyflwyniadau hyn ddarparu mwy o fanylion ynghylch:

- Trefniadau llywodraethu arfaethedig, yn cynnwys strwythur cyfreithiol y trefniadau cronni arfaethedig a sut y cynhelir atebolrwydd i'r cronfeydd sy'n rhan ohonynt.
- Natur y pŵls asedau a fydd ar gael i gronfeydd a sut y gweithredir ar fuddsoddi mewn gwahanol gategorïau asedau.
- Amcangyfrif o arbedion cost pob cronfa unigol a'r amserlen bosib er mwyn cyflawni'r rhain.
- Ymagwedd y pŵl tuag at fuddsoddi mewn isadeiledd.

5.3 Felly, rhaid gwneud nifer o benderfyniadau yng nghyswllt trefniadau gweithio arfaethedig y pŵl dros yr ychydig wythnosau nesaf.

## 6. BETH FYDD YN EI OLYGU I AWDURDODAU GWEINYDDU?

6.1 Un o'r egwyddorion allweddol yw y bydd awdurdodau gweinyddu yn cadw rheolaeth dros osod y strategaeth fuddsoddi a chlustnodiad manwl asedau i'w cronfeydd unigol. Mae hyn yn galluogi gosod nodweddion risg ac adenillion eang y strategaeth ar y cyd â strategaeth ariannu gyffredinol pob cronfa.

6.2 Ond, bydd cronfeydd wedyn yn buddsoddi mewn pŵls asedau y bydd gweithredwr Pŵl Cymru yn sicrhau eu bod ar gael.

6.3 Un o amcanion y Llywodraeth yw nad yw penodi rheolwyr buddsoddi yn digwydd ar lefel cronfa unigol bellach. Bydd penderfyniadau ar reolwyr buddsoddi ar gyfer pob categori neu fandad ased yn cael eu gwneud ar y cyd ar lefel pŵl.

6.4 Bydd trefniadau llywodraethu yn cael eu rhoi ar waith i ganiatáu goruchwylio'r gweithredwr a sicrhau atebolrwydd yn ôl i'r cronfeydd unigol.

6.5 Un o'r egwyddorion y tu ôl i'r ffaith fod y Llywodraeth yn mynnu ar gronni yw y bydd pŵls asedau mwy yn arwain at arbedion ffioedd gyda rheolwyr buddsoddi. Yng Nghymru, mae hyn wedi'i gyflawni eisoes drwy benodiad y rheolwr goddefol sydd wedi creu amcan arbediad cyffredinol o £1.3m y flwyddyn.

6.6 Gyda'i gilydd, mae'n debygol y bydd trosiant llai o reolwyr a fydd yn lleihau costau trafodion. Gallai cyfuno asedau ei gwneud yn fwy cost-effeithiol i rai cronfeydd gael mynediad i gategorïau asedau penodol (megis ecwiti preifat, eiddo ac isadeiledd) ble defnyddir dulliau 'cronfa i gronfa' cymharol ddrud ar hyn o bryd.

6.7 Fodd bynnag, mae'r newidiadau'n golygu y bydd gan Bwyllgorau Pensiynau unigol lai o reolaeth dros eu rheolwyr buddsoddi gwaelodol a bydd angen peth cyfaddawd ar draws y cronfeydd wrth benderfynu ar ba is-gronfeydd yn union fydd ar gael ar gyfer buddsoddi.

6.8 Rhagwelir y gallai’r trosglwyddiadau asedau llifol cyntaf i'r cerbyd cronni ddechrau yn ail hanner 2017 - cyn targed y llywodraeth o fis Ebrill 2018. Mae'r Llywodraeth wedi cydsynio bod buddsoddiadau anhylif, megis eiddo, isadeiledd ac ecwiti preifat, yn debygol o drosglwyddo i'r pŵls dros gyfnod llawer hwy, ac mae wedi pwysleisio'n benodol na ddylid dirwyn buddsoddiadau, sydd â chostau gadael sylweddol, i ben yn gynnar yn sgil y trefniadau cronni.

6.9 O fewn cyflwyniad y pŵl ym mis Gorffennaf, bydd gan gronfeydd unigol hawl i wneud cais i gadw asedau penodol y tu allan i'r pŵl, ond rhagwelir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir hyn.

## 7. CAMAU NESAF

7.1 Bydd cynrychiolwyr o blith swyddogion o bob un o'r cronfeydd yn gweithio ar gytuno ar rai o'r manylion a nodir uchod dros yr wythnos nesaf. Bydd angen adlewyrchu hyn yn y cyflwyniad i DCLG ym mis Gorffennaf.

7.2 Mae natur strwythur cyfreithiol a rheoleiddio'r pŵl wedi'i drafod yn flaenorol ac ar hyn o bryd mae'r cronfeydd yn bwriadu bwrw ymlaen gydag ymarfer dethol yn ddiweddarach eleni er mwyn penodi darparwr trydydd parti i weithredu'r CIV. Mae dal angen cytuno manylion y broses lywodraethu er mwyn goruchwylio'r gweithredwr ond disgwylir trefn yn seiliedig ar bwyllgor ar y cyd gyda chynrychiolaeth gyfartal i bob cronfa.

7.3 Rhaid ystyried a chytuno ar amrediad yr is-gronfeydd a fydd ar gael i'r cronfeydd sy'n cymryd rhan.

7.4 Mae cronfeydd wedi cyflwyno data ar eu costau buddsoddi i CEM Benchmarking, cwmni dadansoddi trydydd parti, a bydd hyn yn gymorth wrth osod gwaelodlin er mwyn monitro arbedion yn y dyfodol.

## 8. CASGLIAD

8.1 Gofynnir i'r aelodau nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn a'r amserlen fer ar gyfer cyflwyno'r ail ymateb erbyn 15 Gorffennaf sydd yn golygu bydd angen cyflwyno'r ymateb cyn y Pwyllgor Pensiynau nesaf.

8.2 Gofynnir i'r Pwyllgor **ail-gadarnhau eu cefnogaeth gyffredinol ar gyfer cynnig y cronfeydd CPLlL Cymraeg ac i ddirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda Cadeirydd y Pwyllgor, i gytuno cynnwys cyflwyniad Gorffennaf y cronfeydd CPLlL i'r DCLG**, gyda copi ohono i'w gylchredeg i holl aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth.